**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Penderfyniadau, Dogfennau a Chyfarfodydd) (Cymru) (Diwygio) 2021**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Adran Llywodraeth Leol ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Penderfyniadau, Dogfennau a Chyfarfodydd) (Cymru) (Diwygio) 2021. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Julie James AS
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
19 Mawrth 2021

## RHAN 1

### 1. Disgrifiad

Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Penderfyniadau, Dogfennau a Chyfarfodydd) (Cymru) (Diwygio) 2021 ("y Rheoliadau hyn") yn diwygio Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Penderfyniadau, Dogfennau a Chyfarfodydd) (Cymru) 2001 ("Rheoliadau 2001") i ddarparu ar gyfer cyhoeddi'n electronig ddogfennau sy'n ymwneud â chyfarfodydd gweithrediaethau awdurdodau lleol a'u pwyllgorau ("cyfarfodydd gweithrediaethau") a phenderfyniadau gweithrediaethau a wneir gan weithrediaethau ac aelodau unigol o weithrediaeth.

### 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Dim

### 3. Y cefndir deddfwriaethol

Mewn ymateb i bandemig COVID-19, gwnaeth Gweinidogion Cymru ddarpariaeth yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020 ("Rheoliadau 2020") i alluogi awdurdodau lleol yng Nghymru i gyfarfod yn ddiogel ac yn gyfreithlon drwy ddulliau o bell yn ystod y pandemig.

Addasodd rheoliad 23 o Reoliadau 2020 ddarpariaethau penodol yn Rheoliadau 2001 i ddarparu ar gyfer cyhoeddi'n electronig ddogfennau sy'n ymwneud â chyfarfodydd gweithrediaethau awdurdodau lleol a phenderfyniadau gweithrediaethau.

Mae terfyn amser ar Reoliadau 2020 ac nid yw rheoliad 23 ond yn gymwys i gyfarfod a gynhelir, neu benderfyniad gweithrediaeth a wneir, cyn diwedd 30 Ebrill 2021.

Mae adran 47 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ("Deddf 2021"), ac Atodlen 4 (fel y'i cyflwynwyd gan adran 49) iddi, yn gwneud darpariaeth fel y gallai prif gynghorau a chyrff llywodraeth leol eraill barhau i gyfarfod o bell o 1 Mai 2021 ymlaen ac i ddogfennau cyfarfodydd cysylltiedig gael eu cyhoeddi'n electronig, ond nid oedd yn bosibl yn yr amser a oedd ar gael i wneud diwygiadau yn ystod camau gwella'r Bil i fodloni gofynion gweithrediaethau prif gynghorau, sydd ychydig yn wahanol.

Felly, mae angen darpariaeth drwy'r Rheoliadau hyn i ddiwygio Rheoliadau 2001 i gysoni'r trefniadau y mae'n ofynnol i weithrediaethau awdurdodau lleol eu cynnal â'r rhai y mae'n ofynnol i brif gynghorau a chyrff awdurdodau lleol eraill eu cynnal.

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan adrannau 22 a 105 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (“Deddf 2000”).

Mae adran 22 o Ddeddf 2000 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth drwy reoliadau ynghylch cyfarfodydd gweithrediaethau awdurdodau lleol, dogfennau sy'n ymwneud â chyfarfodydd o'r fath a mynediad y cyhoedd at wybodaeth a dogfennau sy'n ymwneud â chyfarfodydd o'r fath.

Mae adran 105(5) o Ddeddf 2000 a pharagraffau 30 a 34 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn darparu y bydd y weithdrefn penderfyniad negyddol yn gymwys i reoliadau a wneir o dan adran 22 o Ddeddf 2000.

Bydd adrannau 47 a 49 o Ddeddf 2021, ac Atodlen 4 iddi, yn cael eu dwyn i rym yn llawn ar 1 Mai 2021 gan Orchymyn Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Cychwyn Rhif 3 a Darpariaeth Drosiannol) 2021 a wnaed ar 17 Mawrth 2021.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2001 i adlewyrchu'r ffaith y gellir cynnal cyfarfodydd gweithrediaethau yn rhannol neu yn gyfan gwbl drwy ddulliau o bell, yn rhinwedd adran 47 o Ddeddf 2021. Maent hefyd yn gwneud diwygiadau ategol i Reoliadau 2001 i'w gwneud yn ofynnol i ddogfennau sy'n ymwneud â chyfarfodydd o'r fath gael eu cyhoeddi'n electronig, gan gynnig y fantais ychwanegol o sicrhau bod gwybodaeth o'r fath ar gael yn ehangach.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2001 i'w gwneud yn ofynnol i hysbysiadau o gyfarfodydd gweithrediaethau ddarparu gwybodaeth berthnasol am yr holl amgylchiadau posibl y gellir cynnal cyfarfodydd o'r fath ynddynt, a phan fo'n briodol, sut i gael mynediad atynt (h.y. a yw’r cyfarfod yn un agored neu gaeedig ac a yw’n cael ei gynnal yn gyfan gwbl o bell, mewn lleoliad neu’n gyfuniad o'r rhain).

Gwneir diwygiadau hefyd fel y bydd rhaid cyhoeddi dogfennau penodol yn electronig ar wefan yr awdurdod lleol perthnasol (yn amodol ar eithriadau sy'n ymwneud â pheidio â datgelu gwybodaeth sy'n gyfrinachol neu wedi'i heithrio o gael ei chyhoeddi).

Dyma'r dogfennau dan sylw:

- hysbysiadau;
- agendâu;
- adroddiadau cysylltiedig;
- datganiadau ysgrifenedig o benderfyniadau gweithrediaethau;
- adroddiadau a ystyriwyd wrth wneud penderfyniadau gweithrediaethau;
- papurau cefndir sy'n berthnasol i benderfyniadau gweithrediaethau.

Mae'r gofynion presennol sy’n ei gwneud yn ofynnol i sicrhau bod dogfennau o'r fath ar gael i'w harchwilio yn swyddfeydd yr awdurdod lleol perthnasol yn cael eu disodli gan y gofynion ar gyfer eu cyhoeddi’n electronig. Fodd bynnag, os nad yw'n rhesymol ymarferol cyhoeddi papur cefndir yn electronig ym marn y swyddog priodol (er enghraifft, pe bai’r papur dan sylw yn siarter hanesyddol

fregus sy'n rhoi breintiau hynafol penodol), rhaid sicrhau bod o leiaf un copi o'r ddogfen ar gael i'w archwilio ym mhrif swyddfeydd yr awdurdod dan sylw.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn cyflwyno gofynion newydd mewn perthynas â'r wybodaeth y mae rhaid ei chynnwys yn y datganiadau ysgrifenedig sy’n ofynnol i gofnodi penderfyniadau gweithrediaeth. Rhaid i'r datganiad ysgrifenedig ar gyfer cyfarfod gweithrediaeth lle y gwnaed penderfyniad gweithrediaeth gynnwys enwau'r personau a oedd yn y cyfarfod ac unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb; a rhaid i'r datganiad ysgrifenedig ar gyfer penderfyniad gweithrediaeth a wnaed gan aelod unigol o'r weithrediaeth gynnwys enw'r sawl a wnaeth y penderfyniad.

Rhaid i'r dogfennau y mae rhaid eu cyhoeddi'n electronig yn rhinwedd y Rheoliadau hyn barhau i fod ar gael yn electronig am chwe blynedd o ddyddiad y cyfarfod a'r penderfyniad y maent yn ymwneud â hwy. O dan yr amgylchiadau eithriadol lle mae rhaid sicrhau bod papur cefndir ar gael i'w archwilio, rhaid i'r ddogfen honno hefyd barhau i fod ar gael i'w harchwilio am chwe blynedd.

Mae'n bosibl na fydd rhai o drigolion awdurdod lleol yn gallu cael mynediad at ddogfennau cyfarfod gweithrediaeth y mae'n ofynnol eu cyhoeddi'n electronig. Gwneir darpariaeth i'w gwneud yn ofynnol i brif gynghorau roi cyfleusterau ar waith i alluogi aelodau o'r cyhoedd na fyddent fel arall yn gallu gwneud hynny i gael mynediad at y dogfennau y mae'n ofynnol eu cyhoeddi'n electronig.

Mae darpariaeth newydd hefyd wedi’i chynnwys i'w gwneud yn ofynnol i brif gynghorau roi sylw i ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru ynghylch arfer swyddogaethau o dan Reoliadau 2001 fel y’u diwygiwyd.

Dirymir y tramgwydd o rwystro hawliau i archwilio neu gopïo dogfennau o dan Reoliadau 2001 ar y sail nad oes cyfiawnhad dros hynny mwyach, o ystyried y bydd y dogfennau ar gael yn gyffredinol ac yn hygyrch drwy eu cyhoeddi’n electronig ac o ystyried y trefniadau eraill y mae rhaid eu gwneud.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn gwneud darpariaeth drosiannol sy'n ymwneud â chamau a gymerir cyn 1 Mai 2021 mewn perthynas â chyfarfodydd a gynhelir ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw.

## 5. Ymgynghori

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau angenrheidiol i Reoliadau 2001, sy'n gyson â'r rhai a wnaed ar gyfer prif gynghorau a chyrff llywodraeth leol eraill gan Atodlen 4 i Ddeddf 2021. Maent hefyd yn gyson â'r addasiadau i

Reoliadau 2001 a gymhwyswyd i gyfarfodydd gweithrediaethau gan Reoliadau 2020.

Yn sgil bygythiad difrifol y coronafeirws, a’r angen i’r Rheoliadau hyn ddod i rym ar 1 Mai, nid oes ymgynghoriad cyhoeddus wedi’i gynnal mewn perthynas â’r Rheoliadau hyn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymgyngoriadau cynghori â chynrychiolwyr prif awdurdodau lleol a chyrff sy’n cynrychioli llywodraeth leol yng Nghymru.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau.

Wrth gynnal yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, ystyriwyd dau opsiwn:

- Opsiwn 1: Gwneud Dim
- Opsiwn 2: Cyflwyno offeryn statudol i ddiwygio Rheoliadau 2001

**Costau a manteision**

<u>Opsiwn 1</u>

Dyma'r opsiwn sylfaenol ac, yn hynny o beth, ni fyddai'r opsiwn hwn yn cyflwyno unrhyw newid. Byddai gweithrediaethau prif gynghorau yn parhau i weithredu yn unol â gofynion Rheoliadau 2001.

<u>*Costau a manteision*</u>

Ni fyddai costau na manteision ychwanegol ynghlwm wrth yr opsiwn hwn.

<u>*Risgiau ac anfanteision*</u>

Mae risgiau neu anfanteision ynghlwm wrth yr opsiwn hwn.

Gallai gosod gofynion ar gyfarfodydd gweithrediaeth prif gyngor sy’n wahanol i’r gofynion ar gyfarfodydd y prif gyngor arwain at ddryswch ac anghysondeb.

Byddai aelodau o'r cyhoedd yn gallu cael mynediad, yn electronig, at hysbysiadau a dogfennau cyfarfodydd eraill y prif gyngor a'i bwyllgorau a'i is-bwyllgorau, ond mae’n bosibl na fyddai modd cael mynediad at hysbysiadau a dogfennau cyfarfodydd y weithrediaeth ond drwy fynd i un o swyddfeydd y cyngor. Mae'r rhan fwyaf o brif gynghorau yn cyhoeddi hysbysiadau a dogfennau penodol yn electronig fel arfer, ond efallai na fydd yr argaeledd yn gyson.

Mae adran 47 o Ddeddf 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau sy'n sicrhau y gellir cynnal eu cyfarfodydd mewn modd sy'n galluogi personau nad ydynt yn yr un lle i fynychu’r cyfarfod. Bydd yn ofynnol i brif

gynghorau wneud trefniadau o dan yr adran hon mewn perthynas â'u gweithrediaeth.

O dan yr opsiwn hwn, ni fyddai'r hysbysiadau o gyfarfodydd sy'n ofynnol o dan Reoliadau 2001 yn cyd-fynd â gofynion adran 47 o Ddeddf 2021, gan ei bod yn ofynnol o dan Reoliadau 2001 i'r hysbysiad roi gwybodaeth am *leoliad* ac amser cyfarfod yn unig. Felly, ni fyddai'n cynnwys pob gwybodaeth berthnasol am yr holl amgylchiadau posibl y gellir cynnal cyfarfodydd o'r fath ynddynt yn awr, a phan fo'n briodol, sut i gael mynediad atynt (h.y. a yw'r cyfarfod yn un agored neu gaeedig ac a yw'n cael ei gynnal yn gyfan gwbl o bell, mewn lleoliad neu'n gyfuniad o'r rhain).

Yn ogystal, tra mae pandemig Covid-19, a chyfyngiadau cysylltiedig, yn parhau ni fyddai gweithrediaethau prif gynghorau yn gallu cyfarfod mewn modd diogel o ran Covid o dan yr opsiwn hwn.

<u>Opsiwn 2</u>

O dan yr opsiwn hwn, byddai Rheoliadau 2001 yn cael eu diwygio i gysoni'r trefniadau y mae'n ofynnol i weithrediaethau awdurdodau lleol eu cynnal â'r rhai y mae'n ofynnol i brif gynghorau a chyrff awdurdodau lleol eraill eu cynnal.

<u>*Costau*</u>

*Gofyniad i gynnwys gwybodaeth ychwanegol mewn hysbysiadau a datganiadau ysgrifenedig*

Nid ystyrir y bydd y gofyniad i gynnwys gwybodaeth ychwanegol yn yr hysbysiadau o gyfarfodydd gweithrediaethau nac yn y datganiadau ysgrifenedig sy'n ofynnol i gofnodi penderfyniadau gweithrediaethau yn arwain at gostau ychwanegol. Mae eisoes yn ofynnol i brif gynghorau baratoi'r dogfennau hyn a chynnydd bach iawn sydd yn yr wybodaeth y mae rhaid iddynt ei chynnwys.

*Gofyniad i gyhoeddi'n electronig*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i weithrediaeth prif gynghorau yn unig; mae'r cynghorau hyn ers tro wedi meddu ar y gallu i gyhoeddi'n electronig ar eu gwefannau yr wybodaeth sy'n ofynnol o dan y Rheoliadau hyn ac maent wedi bod yn gwneud hynny ers blynyddoedd lawer.

Mae hi wedi bod yn ofynnol i brif gynghorau gyhoeddi'r dogfennau amrywiol yn electronig ers i Reoliadau 2020 gael eu gwneud ym mis Ebrill 2020 ac mae unrhyw ofynion ychwanegol i gyhoeddi'n electronig yn fach iawn.

Ystyrir bod y Rheoliadau hyn yn taro cydbwysedd priodol rhwng:
- (a) sicrhau bod cofnodion electronig sy'n ymwneud â chyfarfodydd gweithrediaeth prif gyngor yn parhau i fod ar gael i'r cyhoedd graffu arnynt am gyfnod rhesymol o amser; a
- (b) peidio â'i gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnal y cofnodion hynny am gyfnod amhenodol.

*Gofyniad i roi cyfleusterau ar waith i alluogi aelodau o'r cyhoedd, na fyddent fel arall yn gallu gwneud hynny, i gael mynediad at y dogfennau y mae'n ofynnol eu cyhoeddi'n electronig*

Nid ystyrir y bydd unrhyw gostau ychwanegol o'r gofyniad newydd i roi cyfleusterau ar waith i alluogi aelodau o'r cyhoedd, na fyddent fel arall yn gallu gwneud hynny, i gael mynediad at y dogfennau y mae'n ofynnol eu cyhoeddi'n electronig. Ar hyn o bryd, o dan Reoliadau 2001, mae'n ofynnol i brif gynghorau sicrhau bod y dogfennau penodedig mewn perthynas â chyfarfod y weithrediaeth ar gael i'w harchwilio yn eu swyddfeydd.

O dan y gofyniad diwygiedig, bydd cynghorau yn gallu dewis y cyfleusterau y maent yn eu gweithredu er mwyn cydymffurfio â gofynion y Rheoliadau diwygiedig, gan sicrhau eu bod yn briodol i'r person dan sylw.

Gallai hyn, er enghraifft, olygu archwilio'r dogfennau yn swyddfeydd y cyngor yn unol â Rheoliadau 2001, postio dogfennau neu alluogi rhywun i ddod i ganolfan gymunedol cyngor ar amser penodol i weld y dogfennau ar-lein. Fodd bynnag, credwn fod yr achlysuron hyn yn debygol o fod yn gymharol brin ac mai dim ond llond llaw o ddogfennau fyddai dan sylw, ac o ganlyniad mae'n debygol y bydd rhai arbedion i brif gynghorau gan na fydd rhaid iddynt mwyach neilltuo lle a staff ar gyfer y posibilrwydd y bydd aelodau o'r cyhoedd yn cyrraedd i archwilio dogfennau. Er hynny, mae'r arbediad yn fach iawn ac nid yw'n hysbys ar hyn o bryd.

*<u>Manteision</u>*

O dan Opsiwn 2, byddai Rheoliadau 2001 yn cael eu moderneiddio yn unol â'r diwygiadau a wnaed i ddeddfwriaeth, gan gynnwys Rhan 5A o Ddeddf 1972, ac Atodlen 12 iddi, gan Atodlen 4 i Ddeddf 2021.

Wrth alinio Rheoliadau 2001 â darpariaethau Deddf 2021, byddai'r opsiwn hwn yn sicrhau cysondeb ar draws cyfarfodydd y prif gyngor a'i weithrediaeth. Pan fyddant yn ceisio cael mynediad at hysbysiadau a dogfennau cyfarfodydd prif gyngor, boed yn gyfarfodydd o'r cyngor llawn, pwyllgor neu is-bwyllgor neu'r weithrediaeth, byddai aelodau o'r cyhoedd yn gweithredu yn unol â'r un gofynion cyfreithiol.

Byddai hysbysiadau o gyfarfodydd y weithrediaeth a gyhoeddir o dan ofynion Rheoliadau 2001 yn cyd-fynd â gofynion adran 47 o Ddeddf 2021, ac yn cynnwys pob gwybodaeth berthnasol am yr holl amgylchiadau posibl y gellir cynnal cyfarfodydd o'r fath ynddynt, a phan fo'n briodol, sut i gael mynediad atynt (h.y. a yw'r cyfarfod yn un agored neu gaeedig ac a yw'n cael ei gynnal yn gyfan gwbl o bell, mewn lleoliad neu'n gyfuniad o'r rhain).

Yn ogystal, tra mae pandemig Covid-19, a chyfyngiadau cysylltiedig, yn parhau byddai gweithrediaethau prif gynghorau yn gallu cyfarfod mewn modd diogel o ran Covid.

## 7. Dadansoddiad o effeithiau eraill

### Hyrwyddo Cyfleoedd Economaidd i Bawb (Trechu Tlodi)

Ni nodwyd unrhyw effeithiau niweidiol mewn perthynas â hyrwyddo cyfleoedd economaidd i bawb.

### Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Ni nodwyd unrhyw effaith benodol ar hawliau plant.

### Y Gymraeg

Ni nodwyd unrhyw effaith ar y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg na thriniaeth gyfartal o'r iaith.

### Cydraddoldebau

Bydd y darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyhoeddi dogfennau'n electronig yn cynyddu hygyrchedd gwaith a phenderfyniadau llywodraeth leol i'r cyhoedd yn sylweddol iawn, gan gynnwys y rhai â nodweddion gwarchodedig. Er nad yw graddau'r gwelliant mewn mynediad yr un fath ar gyfer pob disgrifiad o berson, yn gyffredinol bydd manteision sylweddol.

Bydd cyfarfodydd a dogfennau yn llawer mwy hygyrch drwy gyfryngau electronig, gan osgoi'r angen i ymweld â swyddfeydd y cyngor i weld hysbysiadau a dogfennau neu i fynychu cyfarfodydd, a allai fod yn rhwystr i'r rhai sydd â symudedd cyfyngedig neu gyfrifoldebau gofalu.

Os na all aelodau o'r cyhoedd gael mynediad at gyfarfodydd gartref, rhagwelir y byddant yn gallu cael mynediad drwy gyfleusterau ar-lein mewn canolfannau cymunedol. Yn ogystal, bydd y gofyniad i gynghorau roi cyfleusterau ar waith i alluogi aelodau o'r cyhoedd, na fyddent fel arall yn gallu gwneud hynny, i gael mynediad at y dogfennau y mae'n ofynnol eu cyhoeddi'n electronig, yn helpu i sicrhau nad yw'r rhai sydd heb fynediad digidol gartref o dan anfantais.

Bydd darparu mynediad electronig at ddogfennau yn cynorthwyo'r rhai sydd â nam ar eu clyw.

### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Bydd mynediad haws at y penderfyniadau a wneir gan weithrediaethau prif gyngor, a'r tryloywder sy'n deillio o hynny, yn cyfrannu at y nod ar gyfer Cymru sy'n fwy cyfrifol ar lefel fyd-eang drwy ddangos ymrwymiad i fod yn agored yn y sector cyhoeddus.

Drwy helpu i bontio i system ddigidol, bydd y system hon yn fwy cynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

### Yr effaith ar y sector gwirfoddol

Ni nodwyd unrhyw effeithiau penodol ar y sector gwirfoddol, elusennol neu nid-er-elw.

**Asesu'r gystadleuaeth**

Ni ddisgwylir i'r Rheoliadau effeithio ar lefel y gystadleuaeth yng Nghymru nac ar gystadleurwydd busnesau Cymru.